

# *Shân Cothi*

Soprano

*Artist Manager: Sioned Jones*
*sioned.jones@harlequin-agency.co.uk*

Mae Shân Cothi yn bersonoliaeth adnabyddus yng Nghymru, yn berfformwraig amryddawn mewn cerddoriaeth glasurol a sioeau cerdd, yn actores brofiadol a chyflwynwraig deledu a radio.

Dechreuodd ei gyrfa fel athrawes cerdd, ond wedi ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1995, cafodd ei hysbrydoli i droi'n gantores broffesiynol.

Yn 2000, castiwyd Shân yn rhan **Carlotta** yng nghynhyrchiad Andrew Lloyd Webber o *The Phantom of the Opera* a bu'n perfformio'r rhan am bymtheg mis yn Theatr ei Mawrhydi yn y 'West End', Llundain. Yn 2014 gwnaeth Shân ei début yn rôl **Mrs Lovett** yn *Sweeney Todd*, gyda Syr Bryn Terfel yn y brif ran, yn Eisteddfod Ryngwladol Gerddorol Llangollen ac yn 2015, dirprwyodd Emma Thompson yn y rôl i English National Opera. I ddathlu 10fed penblwydd Canolfan Mileniwm Cymru ym mis Medi 2015, perfformiodd Shân rôl y feistres hud chwedlonol **Ceridwen** yn *Ar Waith Ar Daith* - digwyddiad awyr agored ysblennydd llawn hud a lledrith a dros 700 o berfformwyr - ym Mhlas Roald Dahl, Bae Caerdydd.

Yn dilyn rhyddhau ei halbwm cyntaf, *Passione* gyda Cherddorfa Siambr Genedlaethol Cymru ar label Sain yn 2005, cafodd fideo hyrwyddo *Caro Mio Ben,* a recordiwyd yn Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ei dyfarnu 'The Most Watched Video' ar deledu Classic FM. Rhyddhawyd ei hail albwm hir-ddisgwyliedig, *Paradwys* ym mis Medi 2015 ar label Acapela, a chyrhaeddodd rif 26 yn siart Classic FM a rhif 18 yn y siartiau clasurol. Yn dilyn hyn, aeth Shân ar daith i hyrwyddo'r albwm mewn capeli a chanolfannau ar hyd a lled Cymru.

Mae Shân yn wyneb cyfarwydd ar deledu Cymraeg. Gwnaeth Shân ei début actio teledu yn chwarae rhan **Davina Roberts** yn y gyfres ddrama lwyddiannus, *Con Passionate* ar S4C ac fe'i henwebwyd yn y categori 'Newydd-ddyfodiad Gorau' yng ngwobrau BAFTA Cymru 2006. Cafodd ei chyfres deledu gerddorol ar S4C wobr BAFTA Cymru a'i henwebu ar gyfer y Rhaglen Gerddorol Orau yng Ng?yl Montreux. Mae Shân wedi cyflwyno nifer o gyfresi teledu i S4C gan gynnwys *Bro,* lle'r oedd hi a'i chyd-gyflwynydd Iolo Williams yn teithio Cymru yn dysgu am wahanol ardaloedd a chyfres *Y Sipsiwn* lle dilynodd Shân hen lwybr y Romani Cymreig mewn carafán sipsiwn.

Mae Shân yn farchoges frwd. Yn 2012, ffilmiodd y rhaglen ddogfen *Cheltenham Cothi*, lle dilynwyd ei hyfforddiant i fod yn joci cystadleuol yn Derby Elusen Dydd Sant Padrig yn Cheltenham. Yn 2013 dringodd Fynydd Kilimanjaro i gefnogi Canolfan Ganser Felindre ac elusen Amser Justin Time, elusen a sefydlwyd gan Shân yn 2008 i godi ymwybyddiaeth o Ganser y Pancreas.

Ym Mehefin 2015, i nodi Diwrnod Cerddoriaeth y BBC, bu Shân yn rhan o sefydlu record byd newydd fel un hanner o ddeuawd oedd 7,000 o filltiroedd ar wahan – y pellter mwyaf rhwng pobl yn canu deuawd. Trwy gyswllt byw, perfformiwyd 'Calon Lân' gan Shân a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yng Nghaerdydd ag Andres Evans yn y Wladfa a ddarlledwyd yn fyw ar BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales a BBC Radio 3.

Ymhlith uchafbwyntiau ei chyngherddau mae 'Broadway to the Bay' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, cyngerdd a darllediad '10 Difa' o Venue Cymru Llandudno ar gyfer S4C, Noson Big Band yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni a Chyngerdd Dathlu 10 mlwyddiant Amser Justin Time ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.

Mae Shân yn cyflwyno rhaglen foreol ddyddiol yn ystod yr wythnos ar BBC Radio Cymru o'r enw *Bore Cothi*.

**Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.**